RHONDDA CYNON TAF

| | |
|---|---|
| At sylw: | Rhieni/Gwarcheidwaid Disgyblion sy'n mynychu Ysgolion Cynradd, Ysgolion Uwchradd, Ysgolion Pob Oed ac Ysgolion Arbennig |

**Gofynnwch am:**
**Please Ask For:** Lisa Kidner
**Rhif ffôn:**
**Telephone Nº:**
**Ffacs:**
**Fax:**
**E-bost:**
**E-mail:**
**Cylchlythyr:**
**Circular:**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Fy Nghyf: My Ref: | LK | Eich Cyf: Your Ref: | | Dyddiad: Date: | 9 Mawrth 2023 |

Annwyl Riant/Gwarcheidwad,

**Parthed: Prisiau Prydau Ysgol 2023/24**

Yng nghyfarfod y Cabinet ar 23 Ionawr 2023, penderfynwyd cynyddu prisiau prydau ysgol ar gyfer y flwyddyn ariannol newydd 2023/2024. Hoffwn roi gwybod i chi y bydd pris prydau ar gyfer disgyblion yn cynyddu o ddydd Llun 17 Ebrill 2023. Dyma'r prisiau newydd: -

- Cynradd - £2.70
- Uwchradd - £2.95

Amcan Gwasanaethau Arlwyo Rhondda Cynon Taf yw cynnig pryd maethlon ac iachus amser cinio. Mae bwydlenni ar gael ar wefan y Cyngor. Mae staff arlwyo yn yr ysgol yn hapus i helpu a darparu'r bwydlenni ichi. Maen nhw hefyd yn gallu darparu bwyd ar gyfer anghenion deietegol arbennig yn ôl gofynion meddygol neu ddeietegol.

Mae modd i'r bwydydd a'r diodydd gaiff eu darparu mewn ysgolion wneud cyfraniad cadarnhaol tuag at gynnig deiet iach a chytbwys i blant a phobl ifainc, yn ogystal â'u hannog nhw i ddatblygu arferion bwyta da.

Mae modd dod o hyd i wybodaeth a manylion am adroddiad a phenderfyniad y Cabinet ar wefan y Cyngor drwy ddefnyddio'r ddolen isod.

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF (moderngov.co.uk)

Yn gywir

L J Kidner

**Miss Lisa Kidner**
**Rheolwr Busnes Arlwyo**

**Tŷ Trevithick**
Abercynon, Aberpennar, CF45 4UQ
Abercynon, Mountain Ash, CF45 4UQ

Ffôn/Tel: 01443 744000
Ffacs/Fax: 01443 744024

**Gaynor Davies**
**Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant | Director of Education and Inclusion Services**

**Dewiswch iaith a diwyg eich dogfen | Available in alternative formats and languages**

Croesawn ohebu yn Gymraeg a fydd gohebu yn y Gymraeg ddim yn arwain at oedi. Rhowch wybod inni beth yw'ch dewis iaith e.e Cymraeg neu'n ddwyieithog.
We welcome correspondence in Welsh and corresponding with us in Welsh will not lead to a delay. Let us know your language choice if Welsh or bilingual.

DIOGELU DATA PROTECTION
MAE EICH DATA O BWYS www.rctcbc.gov.uk/diogeludata
YOUR DATA MATTERS www.rctcbc.gov.uk/dataprotection

hyderus o ran anabledd CYFLOGWR
disability confident EMPLOYER